Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Awgrymwch ac eglurwch ffyrdd y gallai *Daimler* geisio sicrhau ei fod yn cynhyrchu cynhyrchion o ansawdd uchel. [6]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

## Dydy hi 'ddim ar ben' ar y car *Smart* sy'n gwneud colled

Mae Rheolwr-gyfarwyddwr *Daimler* wedi gwadu'r dyfalu *(speculation)* y bydd efallai yn gwerthu neu hyd yn oed yn cau y gwaith *(plant) Smart* sy'n gwneud colled. Nid yw'r car nodedig *(distinctive)* wedi gwneud elw ers iddo gael ei gynhyrchu gyntaf yn 1998 ond **nid yw bodolaeth *Smart* mewn perygl**. Dywedodd llefarydd y cwmni nad oedd cau na gwerthu'r gwaith *Smart* yn cael ei ystyried, ond bod y grŵp yn **trafod cynlluniau i wneud y cwmni'n broffidiol**.

*Addaswyd o www.bbc.co.uk 29 Hydref 2004*

*(ch)* Awgrymwch ac eglurwch **un** dull cyfathrebu y gallai Rheolwr-gyfarwyddwr ceir *Smart* ei ddefnyddio i roi gwybod i'r gweithwyr "**nad yw bodolaeth *Smart* mewn perygl**". [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

**4.** Mae'r *Aga Group ccc* yn gweithgynhyrchu amrywiaeth o gynhyrchion a ddefnyddir yng ngheginau cartrefi a chan fusnesau arlwyo. Ei gynnyrch enwocaf yw'r ffwrn haearn bwrw *Aga (Aga cast iron oven)*. Isod dangosir Mantolen y busnes ar gyfer 31 Rhagfyr 2002 a 2003. Astudiwch hon ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Mantolen *Aga Group ccc* ar gyfer 31 Rhagfyr 2002 a 2003

| | 2003 | 2002 |
|---|---|---|
| | £miliwn | £miliwn |
| | | |
| **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | 220 | 204 |
| | | |
| **Asedau cyfredol** | | |
| Stoc | 61 | 52 |
| Dyledwyr | 103 | 93 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 52 | 79 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 224 |
| | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Credydwyr | 100 | 97 |
| Benthyca tymor byr | 2 | 23 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | 102 | 120 |
| | | |
| **Asedau cyfredol net** | 114 | |
| | | |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | 52 | 36 |
| | | |
| **Cyfanswm yr asedau net a ddefnyddiwyd** | 282 | 272 |
| | | |
| **Cyfalaf a chronfa wrth gefn** | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau | 92 | 92 |
| Cronfa wrth gefn | | 38 |
| Cyfrif elw a cholled | 152 | 142 |
| **Cyfanswm y cyfalaf a ddefnyddiwyd** | 282 | 272 |

*Addaswyd o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Aga Group ccc 2003*

*(a)* Rhowch **un** enghraifft o ased sefydlog y gallai *Aga Group ccc* fod yn berchen arno. [1]

..........................................................................................................................................

*(b)* Mae asedau cyfredol yn cynnwys stoc. Awgrymwch **ddau** fath o stoc y gallai *Aga Group ccc* eu cadw. [2]

(i) ..........................................................................................................................

(ii) ..........................................................................................................................

*(c)* Llenwch y rhannau sydd wedi'u tywyllu yn y fantolen uchod. [3]

**5.** Mae David a Jane Chang yn rhedeg gwesty bach *(guest house)* mewn cyrchfan *(resort)* ar arfordir Gogledd Cymru. Mae'r gwesty bach â lle i hyd at 25 o westeion y nos. Maent wedi cyfrifo mai £300 y nos yw eu costau sefydlog ac y bydd pob gwestai *(guest)* yn costio £5 y nos iddynt. Mae David a Jane yn codi £20 y nos am bob gwestai.



*(a)* Rhowch enghraifft o gost newidiol y bydd rhaid i David a Jane ei thalu ac eglurwch pam mae'r gost a ddewiswyd gennych yn gost newidiol. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Cwblhewch a labelwch y siart adennill costau *(break-even)* gyferbyn drwy dynnu llinell **cyfanswm y derbyniadau** a llinell **cyfanswm y costau**. [4]

**Cewch** ddefnyddio'r grid isod i'ch helpu. **Ni fydd y grid hwn yn cael ei farcio**.

| NIFER Y GWESTEION | COST SEFYDLOG | COST NEWIDIOL | CYFANSWM Y COSTAU | CYFANSWM Y DERBYNIADAU |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

